



PROSIECT

ADNEWYDDU A
RHOI ESTYNIAD AR
AWYRENDY 75

Y CLEIENT

AUK OPERATIONS
LIMITED

GWERTH Y CONTRACT

€1.8M

Y NOD

Dewiswyd Hollingsworth Ellery i wneud y gwaith adnewyddu ac i roi estyniad ar yr awyrendy Pentad yma a adeiladwyd cyn y rhyfel.

Roedd yr awyrendy fel ydoedd yn cynnwys jig adenydd gweithredol oedd wedi ei ddiogelu ac oedd yn parhau fel rhwystr o fewn yr awyrendy yn ystod y gwaith adnewyddu. Roedd y gwaith dymchwel yn gofyn gosod gwyradau, gwneud gwaith cynnal dros dro a diogelu holl wasanaethau cyfredol yr awyrendy.

Roedd yr awyrendy fel ydoedd yn dangos arwyddion o gyrydiad. Roedd angen gwneud gwaith cryfhau strwythurol, adnewyddu darnau, gwneud gwaith weldio ychwanegol a newid y bolltau am rai newydd drwy'r strwythur cyfan.





Hollingsworth Group Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y DULL

Roedd y prosiect peirianeg cymhleth yma'n cynnwys gwaith dros dro, agor a chytuno ar gamau adfer i gadw'r ffrâm bresennol yn sefydlog.

Unwaith yr oedd wedi'i gwblhau, aeth y gwaith adeiladu yn ei flaen ar yr estyniad deulawr newydd gerllaw.

O amgylch y safle adeiladu roedd manau parcio AUK, cyfleuster hyfforddi i 40 o weithwyr a phrif lwybrau traffig y safle. Hefyd cafwyd y gwaith adeiladu trwm yn ystod y gaeaf gwaethaf ar gofnod diweddar.

Y CANLYNIADAU

Yn ystod y gwaith adeiladu cafodd y tîm broblemau ychwanegol gyda chyflwr y safle. Roedd y rhain yn cynnwys canfod lloches cyrch awyr nad oedd neb yn gwybod amdani o dan y tir lle byddai'r estyniad newydd a phroblemau gyda'r rhyngwyneb wrth osod yr estyniad ar y strwythur dur pentad cymhleth yma.

Hefyd darparodd Hollingsworth Ellery gyfleuster swyddfeydd mewnol i'r awyrendy ac ystafelloedd rig brofi, sylfeini a adeiladwyd i oddefiannau meidraidd ar gyfer rigiau profi er mwyn efelychu gweithgynhyrchiad adenydd robotig. Roedd y pecyn gwaith allanol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i berimedr yr adeilad gwreiddiol.

CRYNODEB

Trosglwyddwyd y cyfleuster profi newydd a'r ystafelloedd cyfagos i AUK Operations i gyfateb ag amserlen y prosiect.

Cafodd y prosiect yma ei amlygu fel un rhagorol yn ei weithrediad a'i lwyddiant gan dîm diogelwch AUK. Ni chafwyd unrhyw ddamweiniau nag anafiadau yn ystod y prosiect anodd yma.

